

Hen Gwestiynau Arholiad  
**Rheol Sin, Rheol Cosin, Arwynebedd Triongl**

(Gaeaf 2005)

4. Hydoedd tair ochr triongl yw 8.5 cm, 6.8 cm a 9.4 cm. Darganfyddwch, yn gywir i un lle degol,
- ongl fwyaf y triongl,
  - arwynebedd y triongl. [5]

(Haf 2005)


8. Mae'r triongl  $ABC$  fel bod  $AB = x$  cm,  $BC = (x - 3)$  cm,  $CA = (x - 1)$  cm ac  $\widehat{ABC} = 60^\circ$ .
- Defnyddiwch y rheol cos i ddangos bod  $x = 8$ . [4]
  - Darganfyddwch arwynebedd triongl  $ABC$ , gan roi eich ateb ar ffurf swrd. [2]

(Gaeaf 2006)

3. Mae'r triongl  $ABC$  fel bod  $AB = 12$  cm,  $BC = 10$  cm a  $\widehat{CAB} = 45^\circ$ .
- Darganfyddwch y gwerthoedd posibl ar gyfer  $\widehat{BCA}$  ac  $\widehat{ABC}$ . [4]
  - Darganfyddwch y gwerthoedd posibl ar gyfer arwynebedd y triongl  $ABC$ . [2]

(Haf 2006)

3. Mae'r diagram isod yn dangos y triongl  $ABC$ , gydag  $AB = x$  cm,  $AC = 8$  cm a  $\widehat{BAC} = 150^\circ$ .



O wybod mai arwynebedd y triongl  $ABC$  yw  $10 \text{ cm}^2$ ,


- darganfyddwch  $x$ , [3]
- cyfrifwch hyd ochr hwyaf (*longest*) y triongl  $ABC$ , gan roi eich ateb yn gywir i ddau le degol. [3]

(Gaeaf 2007)

6. Mae'r triongl  $ABC$  fel bod  $AB = 6$  cm,  $AC = 10$  cm ac ongl **aflem** yw  $\widehat{BAC}$ . Arwynebedd y triongl  $ABC$  yw  $15\sqrt{3}$  cm<sup>2</sup>.
- (a) Darganfyddwch faint  $\widehat{BAC}$ . [3]
- (b) Cyfrifwch hyd  $BC$ . [3]

(Haf 2007)

3. Mae'r diagram isod yn dangos y triongl  $ABC$ , gydag  $AB = x$  cm,  $BC = 3x$  cm,  $AC = 7$  cm ac  $\widehat{ABC} = 60^\circ$ .




- (a) Dangoswch fod  $x = \sqrt{7}$ . [3]
- (b) Darganfyddwch  $\widehat{ACB}$ . [2]

(Gaeaf 2008)

5. Yn y triongl  $ABC$ , mae  $AB = 6$  cm,  $BC = 13$  cm a  $CA = 9$  cm.
- (a) Darganfyddwch werth  $\cos \widehat{BAC}$  fel ffracsiwn yn ei ffurf symlaf. [3]
- (b) Dangoswch mai arwynebedd triongl  $ABC$  yw  $4\sqrt{35}$  cm<sup>2</sup>. [3]

(Haf 2008)

3. Mae'r diagram isod yn dangos y triongl  $ABC$  gydag  $AB = x$  cm,  $AC = (x + 4)$  cm a  $\widehat{BAC} = 150^\circ$ .




O wybod mai arwynebedd y triongl  $ABC$  yw  $15 \text{ cm}^2$ ,

- (a) darganfyddwch werth  $x$ , [3]  
(b) darganfyddwch hyd  $BC$  yn gywir i un lle degol. [2]

(Gaeaf 2009)

3. Mae'r diagram isod yn dangos braslun o'r triongl  $ABC$  gydag  $AB = 7$  cm,  $AC = x$  cm,  $BC = 9$  cm a  $\cos \widehat{BAC} = \frac{2}{7}$ .



- (a) Ysgrifennwch a symleiddiwch hafaliad cwadratig y mae  $x$  yn ei fodloni. Trwy hyn, enhifwch  $x$ . [3]  
(b) (i) Mynegwch  $\sin \widehat{BAC}$  yn y ffurf  $\frac{\sqrt{m}}{n}$ , lle mae  $m, n$  yn gyfanrifau y mae'n rhaid darganfod eu gwerthoedd.  
(ii) Mynegwch  $\sin \widehat{ACB}$  yn y ffurf  $\frac{\sqrt{p}}{3}$ , lle mae  $p$  yn gyfanrif y mae'n rhaid darganfod ei werth. [4]

(Haf 2009)

3. Mae'r triongl  $ABC$  fel bod  $AB = 16$  cm,  $AC = 9$  cm ac  $\widehat{ABC} = 23^\circ$ .

(a) Darganfyddwch y gwerthoedd posibl ar gyfer  $\widehat{ACB}$ . Rhowch eich atebion yn gywir i'r radd agosaf. [2]


(b) O wybod mai ongl **lem** yw  $\widehat{BAC}$ , darganfyddwch

(i) maint  $\widehat{BAC}$ , gan roi eich ateb yn gywir i'r radd agosaf,

(ii) arwynebedd triongl  $ABC$ , gan roi eich ateb yn gywir i un lle degol. [4]

(Gaeaf 2010)

3. Mae'r diagram isod yn dangos braslun o'r triongl  $ABC$  gydag  $AB = 8$  cm,  $AC = x$  cm,  $BC = (x + 2)$  cm ac  $\widehat{ABC} = 60^\circ$ .



(a) Ysgrifennwch a symleiddiwch hafaliad y mae  $x$  yn ei fodloni. Trwy hyn, enrhifwch  $x$ . [3]

(b) Darganfyddwch faint  $\widehat{ACB}$ . [2]


(Haf 2010)

3. (a) Mae'r triongl  $ABC$  fel bod  $AB = 11$  cm, a  $\widehat{BAC} = 110^\circ$ . O wybod mai arwynebedd y triongl  $ABC$  yw  $31$  cm<sup>2</sup>, darganfyddwch hyd  $BC$ . [4]

(b) Mae'r triongl  $XYZ$  fel bod  $XY = 2$  cm,  $YZ = (2\sqrt{3} - 1)$  cm ac  $\widehat{YXZ} = 60^\circ$ . Darganfyddwch fynegiad ar gyfer  $\sin \widehat{XZY}$  yn y ffurf  $\frac{m + \sqrt{3}}{n}$ , lle mae  $m, n$  yn gyfanrifau y mae'n rhaid darganfod eu gwerthoedd. [3]

(Gaeaf 2011)


3. Mae'r diagram isod yn dangos braslun o'r triongl  $ABC$  gydag  $AB = x$  cm,  $AC = (x + 1)$  cm,  $BC = (x + 6)$  cm a  $\widehat{BAC} = 120^\circ$ .



- (a) Dangoswch fod  $x$  yn bodloni'r hafaliad  $2x^2 - 9x - 35 = 0$ . Trwy hyn, enrhifwch  $x$ . [4]
- (b) Darganfyddwch arwynebedd triongl  $ABC$ . Rhwch eich ateb yn gywir i ddau le degol. [2]

(Haf 2011)


3. Mae'r diagram isod yn dangos braslun o'r triongl  $ABC$ , lle mae  $\sin A = \frac{3}{5}$ ,  $\sin B = \frac{5}{13}$ ,  $\sin C = \frac{56}{65}$ ,  $AC = x$  cm a  $BC = y$  cm.



- (a) Dangoswch fod  $y = 1.56x$ . [2]
- (b) O wybod mai arwynebedd y triongl  $ABC$  yw  $4.2$  cm<sup>2</sup>, darganfyddwch werth  $x$  a gwerth  $y$ . [5]

(Gaeaf 2012)

3. Mae'r diagram isod yn dangos braslun o'r triongl  $ABC$  gydag  $AB = x$  cm,  $AC = (2x - 3)$  cm a  $\widehat{BAC} = 150^\circ$ . Arwynebedd y triongl  $ABC$  yw  $6.75$  cm<sup>2</sup>.




- (a) Dangoswch fod  $x$  yn bodloni'r hafaliad  $2x^2 - 3x - 27 = 0$ . Trwy hyn, enrhifwch  $x$ . [4]  
(b) Darganfyddwch hyd  $BC$ . Rhowch eich ateb yn gywir i ddau le degol. [2]

Mae'r pwynt  $D$  ar  $BC$  ac mae fel bod  $AD$  yn berpendicwlar i  $BC$ .

- (c) Darganfyddwch hyd  $AD$ . Rhowch eich ateb yn gywir i ddau le degol. [2]

(Haf 2012)

3. (a) Mae'r diagram isod yn dangos braslun o'r triongl  $ABC$ , lle mae  $AB = 5$  cm,  $AC = x$  cm,  $BC = 11$  cm a  $\cos \widehat{BAC} = \frac{2}{5}$ .




Ysgrifennwch a symleiddiwch hafaliad cwadratig y mae  $x$  yn ei fodloni. Trwy hyn, enrhifwch  $x$ . [3]

- (b) Mae'r triongl  $XYZ$  fel bod  $XY = 32$  cm,  $XZ = 15$  cm a  $\widehat{XYZ} = 19^\circ$ . Darganfyddwch y gwerthoedd posibl ar gyfer  $\widehat{YXZ}$ . Rhowch eich atebion yn gywir i'r radd agosaf. [4]

(Gaeaf 2013)


3. Mae'r diagram isod yn dangos braslun o'r triongl  $ABC$  gydag  $AB = 10$  cm,  $AC = x$  cm,  $BC = (x + 4)$  cm ac  $\widehat{ABC} = \alpha$ , lle mae  $\cos \alpha = \frac{3}{5}$ .



- (a) Ysgrifennwch a symleiddiwch hafaliad y mae  $x$  yn ei fodloni. Trwy hyn, enrhifwch  $x$ . [3]
- (b) Darganfyddwch union werth arwynebedd y triongl  $ABC$ . [3]

(Haf 2013)


3. Mae'r diagram isod yn dangos braslun o'r triongl  $ABC$ , lle mae  $AB = x$  cm,  $AC = (x - 2)$  cm a  $BC = (x + 2)$  cm.



- (a) Dangoswch fod  $\cos \widehat{BAC} = \frac{x - 8}{2x - 4}$ . [3]
- (b) O wybod bod  $\widehat{BAC} = 120^\circ$ ,
- darganfyddwch werth  $x$ ,
  - darganfyddwch faint  $\widehat{ABC}$ . [4]

(Gaeaf 2014)


5. Mae'r diagram isod yn dangos braslun o'r triongl  $ABC$  gydag  $AB = 5$  cm ac  $AC = 6$  cm. Mae'r pwynt  $D$  ar  $BC$  fel bod  $BD = 3$  cm,  $DC = 1$  cm ac  $AD = x$  cm.



- (a) (i) Trwy gymhwyso'r rheol cos ym mhob un o'r trionglau  $ADB$  ac  $ADC$ , dangoswch fod  $\cos \hat{ADB} = \frac{x^2 - 16}{6x}$  a darganfyddwch fynegiad tebyg ar gyfer  $\cos \hat{ADC}$ .
- (ii) Gan nodi bod  $\hat{ADB}$  ac  $\hat{ADC}$  yn onglau ar linell syth, defnyddiwch y mynegiadau sydd wedi'u holrhain (*derived*) yn rhan (i) i ysgrifennu hafaliad y mae  $x$  yn ei fodloni. Trwy hyn, dangoswch fod  $x = 5.5$ . [6]
- (b) Darganfyddwch arwynebedd y triongl  $ADB$ . Rhowch eich ateb yn gywir i ddau le degol. [3]

(Haf 2014)

3. Mae'r diagram isod yn dangos braslun o'r triongl  $ABC$  lle mae  $\sin A = \frac{4}{5}$ ,  $\sin B = \frac{8}{17}$ ,  $\cos C = -\frac{13}{85}$ ,  $AC = x$  cm a  $BC = y$  cm.



- (a) Dangoswch fod  $y = 1.7x$ . [2]
- (b) O wybod bod  $AB = 10.5$  cm, **defnyddiwch y rheol cosin** i ddarganfod union werth  $x$ . [4]



(Haf 2015)

3. Mae'r triongl  $ABC$  fel bod  $AB = 19$  cm,  $AC = 12$  cm ac  $\widehat{ABC} = 25^\circ$ .

(a) Darganfyddwch y gwerthoedd posibl ar gyfer  $\widehat{ACB}$ . Rhwch eich atebion yn gywir i'r radd agosaf. [2]


(b) O wybod mai ongl **lem** yw  $\widehat{BAC}$ , darganfyddwch

(i) maint  $\widehat{BAC}$ , gan roi eich ateb yn gywir i'r radd agosaf,

(ii) arwynebedd y triongl  $ABC$ , gan roi eich ateb yn gywir i ddau le degol. [4]

(Haf 2016)

3. Mae'r diagram isod yn dangos braslun o driongl  $ABC$  gydag  $AB = x$  cm,  $BC = (x + 5)$  cm,  $AC = 7$  cm a  $\cos \widehat{BAC} = -\frac{3}{5}$ .




(a) Ysgrifennwch hafaliad sy'n cael ei fodloni gan  $x$ . Trwy hyn dangoswch fod  $x = 15$ . [3]

(b) Darganfyddwch union werth arwynebedd triongl  $ABC$ . [3]

(c) Mae'r pwynt  $D$  ar  $BC$  fel bod  $AD$  yn berpendicwlar i  $BC$ . Darganfyddwch hyd  $AD$ . [2]

(Haf 2017)


3. Mae'r diagram isod yn dangos braslun o'r triongl  $ABC$  gydag  $AB = x$  cm,  $BC = (x + 5)$  cm,  $AC = (2x + 1)$  cm ac  $\hat{ABC} = 60^\circ$ .



- (a) Dangoswch fod  $x$  yn bodloni'r hafaliad  $3x^2 - x - 24 = 0$ . Trwy hyn enrhifwch  $x$ . [4]
- (b) Darganfyddwch beth yw maint  $\hat{ACB}$ . [2]

(Haf 2018)

3. (a) Mae'r diagram isod yn dangos braslun o'r triongl  $ABC$  gydag  $AB = x$  cm,  $BC = (2x - 1)$  cm ac  $\hat{ABC} = 30^\circ$ . Arwynebedd y triongl  $ABC$  yw  $11.25$  cm<sup>2</sup>.



- (i) Ysgrifennwch a symleiddiwch hafaliad cwadratig sy'n cael ei fodloni gan  $x$ . Trwy hyn dangoswch fod  $x = 5$ . [6]
- (ii) Darganfyddwch hyd  $AC$ . Rhwch eich ateb yn gywir i un lle degol. [6]
- (b) Mae'r triongl  $XYZ$  fel bod  $XY = 29$  cm,  $XZ = 16$  cm ac  $\hat{XYZ} = 17^\circ$ . Darganfyddwch werthoedd posibl  $\hat{YXZ}$ . Rhwch eich atebion yn gywir i'r radd agosaf. [4]